# Cofnodion Cyngor Cymuned Pentir

Cyfarfod Rhithiol o'r Cyngor Llawn Nos Iau 13eg o Fai 2021 **yn dilyn y Cyfarfod Blynyddol**

1. **Presennol:** Cynghorwyr L .A. James;; M. Lynch J. Griffiths; E. Jones; M. Baines; J. Pierce; D. W. Jones; B.Jones a'r Clerc E Jones

2. **Ymddiheuriadau:**

   Cynghorwyr J Lewis; D. Jones-Morris; H Griffiths; T A Williams;;

   Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cyng D W Jones

3. **Datgan buddiant**

   Esbonwyd y broses ynglyn a datgan buddiant yn rhithiol unwaith eto.
   Datgan ar lafar i'r Clerc allu ei gofnodi ag i'r Cynghorydd wedyn anfon ffurflen wedi ei llofnodi
   Dim datganiad

4. **Derbyn cofnodion** 11eg o Fawrth 2021 – Derbynwyd y cofnodion fel rhai cywir

   Cyng B. Jones yn cynnig a Cyng M. Baines yn eilio

5. **Materion yn codi o'r cofnodion**

   Canolfan Penrhos

   Cyng L A James heb weld y Rheolwr Prosiect i holi am amcangost o'n costau am y gwaith ychwanegol mae'r Cyngor yma wedi ei ofyn amdanynt

   Cofrestru Llwybr Treborth diweddariad

   Adroddwyd fod llawer o'r ffurflenni i ddatgan defnydd wedi eu dychwelyd ond disgwyl ychwaneg i mewn. u

   Cytunwyd i ymdrechu gau yr ymgyrch ddiwedd Mai a'i anfon ymlaen i Wynedd yn ystod Mehefin

   Bryn Howell a Cylchfan y Faenol adroddwyd fod adran Gorfodaeth wedi trafod Bryn Howell hefo'r aelod lleol ond nad oedd wedi clywed nemor ddim am safle gwaelod allt y Faenol oedd i fod i gael ei ail-hadu **Cyng M Baines am holi ymhellach**

6. **Materion ariannol**

   **Cyfrifon 2020-21 a'r adroddiad ariannol wedi eu derbyn yn y Cyfarfod Blynyddol**

   - Adroddiad o Gyfarfod IBC 28ain o Ebrill 2021
     1. Mantolen ariannol – Cafodd y fantolen ariannol ei rhannu ar y sgrin yn dangos £17,764.37 yn y cyfrif Cyfredol a £25,037.81 yn y cyfrif Cadw yn dilyn derbyn llog o £0.62c
     2. Dim cais am nawdd wedi dod i law
     3. Cadarnhau talu'r taliadau oedd angen sylw a cadarnhaodd y Clerc iddo gael £38.70 o stampiau i'w ychwanegu at gostau'r ink i wneud cyfanswm o £99.20 yn daladwy iddo
     4. Derbynwyd cais talu mlaen llaw am gladdu llwch mewn bedd teulu gan gwpwl o Loegr. **Cytunwyd ar argymhelliad yr IBC i godi £400 arnynt - Clerc i gadarnhau drwy lythyr**

   BDO Dim i adrodd yn ol arno

7. **Logo** Bu trafodaeth yn yr IBC ynglyn a pa ddyluniad fyddai orau ganddynt
   Dewiswyd 3 i'w argymhell i'r Cyngor Llawn a derbynwyd yr argymhelliad hynny
   **Bydd Cyng L A James yn cysylltu nol hefo'r dylunydd**

8. **Cynllunio**
   a. Cais Cynllunio C21/0397/25/LL Lleoliad: Fodol Ganol Farm, Ffordd Y Hafod, Bangor, LL57 4BU
   Bwriad: Dymchwel y tŷ presennol a chodi tŷ newydd yn ei le
   **Dim gwrthwynebiad**

**9. Materion y Clerc**

- Gohebiaeth Adrodd fod amcanbris Zurich wedi cyrraedd a'i rannu ond yn ddrytach na'r rhai oedd wedi eu derbyn eisioes
- Yswiriant Cytuno i fynd hefo Cwmni Hiscox am eleni
- Cofrestru angladdau – beddi a chyllid y fynwent yn elecronig Esbonwyd fod gwaith cofnodi beddi – angladdau a chyllid y 2 fynwent yn digwydd mewn 5 llyfr cofnodi a bod chweched. 'roedd wedi trafod hefo Clerc Cyngor Cymuned Llanrug am sustem electronig oedd ganddynt **Cytunwyd gwahodd rhai o aelodau Cyng Cymuned Llanrug i'r Is-Bwyllgor Cyllid nesaf i egluro**
- Septic Tanc Trefniant fod Bill Font yn mynd i ymweld a dylunio yr sustem fydd ei angen yn Glasinfryn ag wedyn holi am brisiau gan Gontractwyr.
  Byddai hynny yn fwy trylouw i bawb
- Cysgodfan Nant y Mownt Adroddwyd fod y Clerc wedi cyfarfod ar y safle hefo Swyddog o adran trafnidiaeth o Wynedd a'r sawl oedd yn gwrthwynebu a mwy neu lai wedi datrys y lleoliad. Yn anffodus bu i'r Clerc ddarganfod fod ein Contractwr D Williams o Llithfaen bellach wedi ymddeol o ymgymeryd a gosod cysgodfannau.
  Bydd yn anodd cael rhywun i wneud y gwaith ond parhau i chwilio **Clerc i holi**

**10. Materion y Cynghorwyr**

a. Cyng E Jones Diweddariad cofrestru Llwybr Treborth
   **Adroddiad dan Materion yn codi uchod**

b. Cyng L A James
   i. Gwasanaethu'r Awdurdod Iechyd
      Llongyfarchwyd y Cyng B Jones oedd wedi cwblhau 50 mlynedd o wasanaeth gyda'r awdurdod Iechyd
   ii. Canolfan Penrhos **Adroddiad dan Materion yn codi uchod**

Daeth y cyfarfod i ben am 9.10